# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 3**

HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

**PENNOD 2**

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD PAN FO PRIF GYNGHORAU YN GWNEUD PENDERFYNIADAU

*Dyletswydd ar brif gynghorau i annog cyfranogiad o fewn llywodraeth leol*

**40 Strategaeth ar annog cyfranogiad**

(1) Rhaid i brif gyngor lunio a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth cyfranogiad y cyhoedd") sy'n pennu sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 39.

(2) Rhaid i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ymdrin â'r canlynol, yn benodol—

(a) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o swyddogaethau'r prif gyngor;

(b) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o'r modd y deuir yn aelod o'r prif gyngor, a'r hyn y mae aelodaeth yn ei olygu;

(c) dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl leol gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y prif gyngor;

(d) dulliau o hybu a hwyluso prosesau lle gall pobl leol gyflwyno sylwadau i'r prif gyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud;

(e) y trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben y ddyletswydd ar y cyngor yn adran 62 o Fesur 2011 (dwyn safbwyntiau'r cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu);

(f) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o’r prif gyngor o fanteision defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

(3) Caiff strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ymdrin â’r modd y mae prif gyngor yn bwriadu cydymffurfio â dyletswydd a osodir gan unrhyw ddeddfiad.